

Cofnodion cryno – Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:

Gellir gwyllo'r cyfarfod ar [Senedd TV](#) yn:

Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd

<http://senedd.tv/cy/3740>

Dyddiad: Dydd Mercher, 5 Hydref 2016

Amser: 09.01 – 12.28

Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Cynulliad:	Simon Thomas AC (Cadeirydd) Mike Hedges AC Eluned Morgan AC David Rees AC Steffan Lewis AC Nick Ramsay AC Mark Reckless AC
Tystion:	Nick Bennett, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Susan Hudson, Swyddfa Ombwdsmon Cymru Cyhoeddus Cymru David Meaden, Swyddfa Ombwdsmon Cymru Cyhoeddus Cymru Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc Suzy Davies AC, Comisiynydd Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid
Staff y Pwyllgor:	Bethan Davies (Clerc) Georgina Owen (Dirprwy Clerc)



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

1 08.45–09.00 Rhag-gyfarfod anffurfiol

2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod.

3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Nodwyd y papur.

4 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2017–18: Sesiwn dystiolaeth

4.1 Bu'r Pwyllgor yn craffu ar Amcangyfrif o Incwm a Threuliau 2017–18 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

4.2 Cytunodd yr Ombwdsmon i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar feincnodi yn erbyn cyrff eraill tebyg a chynlluniau ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus.

5 Cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017–18: Sesiwn dystiolaeth

5.1 Craffodd y Pwyllgor ar gyllideb ddrafft 2017–2018 Comisiwn y Cynulliad.

5.2 Cytunodd Comisiwn y Cynulliad i ddarparu:

- rhagor o wybodaeth am fuddsoddiad TGCh yn y dyfodol
- manylion am faint a wariwyd ar adnewyddu TGCh yn y Siambr
- nodyn yn egluro'r arbedion o 12% mewn TGCh
- esboniad dros y cynnydd mewn costau TGCh yn ymwneud â 'Refeniw a Phrynu defnyddiau traul'
- y rhesymau dros y lleihad yn y gyllideb yn 2017-18 ar gyfer 'Cyflogau ac argostau Aelodau'r Cynulliad'
- rhestr o'r 14 o ysgolion na wnaeth fanteisio ar y cyfle i ymgysylltu â'r Cynulliad

6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gynnig i wahardd y cyhoedd o weddill y sesiwn ac o eitem 1 yn y sesiwn nesaf.

7 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Amcangyfrif o incwm a threuliau ar gyfer 2017–18: Ystyried y dystiolaeth

7.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

8 Cyllideb ddrafft Comisiwn y Cynulliad ar gyfer 2017–18: Ystyried y dystiolaeth

8.1 Ystyriodd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

9 Trosolwg o'r broses gyllidebu

9.1 Cafodd y Pwyllgor bapur briffio am broses y gyllideb.